# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011** |
| Amser: | **08:30 – 08:57** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Ddirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r bleidlais ar y ddadl gan Aelod unigol yn cael ei chynnal yn unol â'r confensiwn ar bleidleisio ar ddadleuon y gwrthbleidiau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio ar ddydd Mawrth a dydd Mercher yn cael ei gynnal cyn y ddadl fer.

3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor Busnes y bydd cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol yn cael eu symud o ddydd Mercher 9 Tachwedd 2011 i ddydd Mercher 16 Tachwedd, ac felly cynhelir y cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wythnos yn gynt ar ddydd Mercher 9 Tachwedd 2011.

Nododd y Pwyllgor amserlen fusnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyhoeddi enwau'r Aelodau a fu'n llwyddiannus ym malot y Ddadl Fer ar gyfer gweddill y tymor.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i restru'r eitem o fusnes a ganlyn:

**<u>Dydd Mercher 16 Tachwedd 2011</u>**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012/13 (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Deddfwriaeth

4(i) **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y gwelliannau a gyflwynwyd i Fil Senedd y DU ynghylch Addysg. Oherwydd amseriad cyflwyno'r Bil yn San Steffan, cytunodd y Pwyllgor Busnes na fyddai'n cael ei gyfeirio i bwyllgor i'w ystyried ac y byddai felly'n cael ei gyflwyno i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Tachwedd 2011.

Pwysleisiodd y Llywydd bod disgwyl i ddigon o rybudd gael ei roi i'r Cynulliad, unwaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol newydd Llywodaeth y DU yn hysbys, fel nad yw'r broses graffu'n cael ei osgoi yn y modd hwn. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i ystyried sut y gall y Cynulliad gael mwy o rybudd am Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 5. Pwyllgorau

5(i) **Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin - Cais i gynnal cyfarfod yn Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin i gynnal cyfarfod ffurfiol ar faes y Sioe Frenhinol ddydd Llun 28 Tachwedd 2011. Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod costau darlledu'r sesiynau hyn a pha mor hygyrch fyddai cyfarfodydd pwyllgor allanol i'r cyhoedd.

## Unrhyw Fusnes Arall

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfarfod yn gyhoeddus am 08.45 ddydd Mawrth 1 Tachwedd (Ystafell Bwyllgora 4) i drafod y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n weddill, yn sgil y Refferendwm (Gorchmynion adran 109).